



Cyngor Gofal Cymru
Care Council for Wales

Hyder mewn Gofal - Confidence in Care



Y Radd Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru Canllaw Asesu Ymarfer



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyhoeddir gan:

Cyngor Gofal Cymru,

South Gate House,

Wood Street,


Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: 0300 30 33 444

Ffacs: (029) 2038 4764

E-bost: info@ccwales.org.uk

Gwefan: www.ccwales.org.uk



© (Ionawr 2013) Cyngor Gofal Cymru
Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu
 unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i
 gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i
 drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy
 unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig
 Cyngor Gofal Cymru ymlaen llaw. Dylai
 ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn
 a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael
 eu hanfon at Brif Weithredwr Cyngor Gofal
 Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

ISBN: 978-1-906528-69-0

**Copïau pellach a
fformatau eraill**

Gellir cael rhagor o
gopïau o'r ddogfen
hon mewn print bras
neu mewn fformatau
eraill yn ôl y gofyn.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Diben y Fframwaith	3
Asesu a Lefelau	4
Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol	4
Canllaw i Aseswyr Ymarfer	6
Pwyslais Dysgu	8
Lefel Un Addasrwydd i Symud Ymlaen ag Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	9
Lefel Dau Cymhwyso Gwybodaeth, Sgiliau a Gwerthoedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	12
Lefel Tri Datblygu a Chadarnhau Cymhwysedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	15
Atodiad 1 Gofynion tystiolaeth ar gyfer y Côd Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol	18
Atodiad 2 Rolau Allweddol a Throsolwg o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol 2012	21
Atodiad 3 Dangosyddion Perfformiad ar gyfer y Radd Gwaith Cymdeithasol	29
Atodiad 4 Mapio'r SGC yn ôl Datganiadau Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, Lefelau 2 a 3	40
Atodiad 5 Gofynion Technoleg Gwybodaeth i Fyfyrrwyr Gwaith Cymdeithasol	44

Cyflwyniad

Mae dogfen Cyngor Gofal Cymru (y Cyngor Gofal) Y Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol (2012)¹ yn amlinellu gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfarnu'r radd mewn gwaith cymdeithasol.

Mae'n cynnwys rheolau'r Cyngor Gofal ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd rhaglenni'r radd gwaith cymdeithasol ac yn darparu fframwaith asesu sy'n amlinellu'r safonau ar gyfer asesu tystiolaeth gan fyfyrwyr, a'r dulliau o wneud hynny. Mae'r hyn y mae myfyrwyr yn ei ddysgu yn rhan o'r radd wedi'i seilio ar ystod o safonau, sef:

- Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol (SGC)
- Datganiadau Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
- Y Côt Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (Côt Ymarfer)

Datblygwyd y canllaw canlynol ar y cyd gan y Cyngor Gofal a rhaglenni'r radd gwaith cymdeithasol ledled Cymru. Mae'n disgrifio'r pwyslais a'r broses y dylid eu defnyddio i asesu myfyrwyr yn eu Cyfleoedd Dysgu Ymarfer, a sut y mae angen dangos tystiolaeth o'r safonau.

Mae'r radd gwaith cymdeithasol yn mynnu bod myfyrwyr yn cwblhau cwrs integredig sy'n cynnwys yr un faint o ddysgu academiaidd ac ymarferol: *"Dylai dysgu i ymarfer alluogi pob myfyriwr i ddatblygu ei werthoedd, ei sgiliau a'i wybodaeth ei hun yn raddol ac yn gynyddol, gyda dulliau asesu teg a phriodol sy'n asesu cynnydd a chyflawniad"*². Mae pob cyfres o safonau'n pwysleisio pwysigrwydd integreiddio. Mae'r SGC yn mynnu bod gwybodaeth a sgiliau academiaidd fel myfyrio beirniadol yn rhan o ymarfer cymwys, mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn pwysleisio pwysigrwydd cymhwysedd mewn ymarfer a dysgu integredig, ac mae'r Côt Ymarfer yn mynnu bod gweithwyr cymdeithasol yn *"ysgwyddo cyfrifoldeb dros gynnal a gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau"*³. Er mwyn cyflawni'r dysgu integredig a amlinellir uchod, mae ystod o wahanol weithwyr proffesiynol yn ymwneud ag asesu myfyrwyr, ond mae'r canllaw hwn wedi'i lunio'n benodol ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am asesu eu hymarfer.

¹ Y Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol, 2012, Cyngor Gofal Cymru www.ccwales.org.uk

² Sicrhau Cysondeb mewn Dysgu i Ymarfer, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 2004 tudalen 39

³ Y Côt Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol, Cyngor Gofal Cymru, www.ccwales.org.uk/

Diben y Canllaw

Diben y Fframwaith Asesu ar gyfer y Radd Gwaith Cymdeithasol (Fframwaith Asesu) yw sicrhau bod pob myfyriwr gwaith cymdeithasol sy'n cwblhau'r radd gwaith cymdeithasol yng Nghymru yn llwyddiannus wedi dangos eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer cymhwysedd fel a ddisgrifir yng Ngofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer *Dyfarnu Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol*. Felly, mae'r Fframwaith Asesu yn darparu strwythur ar gyfer safoni'r canlyniadau dysgu ar dair lefel o'r radd gwaith cymdeithasol, y bydd rhaglenni wedi seilio eu cwricwlwm arnynt.

Mae'r canllaw hwn wedi'i lunio i gefnogi'r broses o asesu myfyrwyr sy'n dilyn y radd, ac mae'n darparu strwythur er mwyn i aseswyr ymarfer ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain i wneud dyfarniadau ynglŷn â datblygu cymhwysedd.

Asesu a Lefelau

Caiff ymarfer y myfyriwr ei asesu ar gyfer pob un o dair lefel y radd. Mae'n rhaid i'r asesiad o ddysgu ymarfer gael ei gynnal gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig a phrofiadol sy'n aseswr cymwysedig, neu sy'n hyfforddi i fod yn aseswr cymwysedig.

Dylai tystiolaeth o'r hyn a ddysgwyd a'r holl ddeunydd cysylltiedig, gan gynnwys adroddiad yr aseswr ymarfer, gael eu cyflwyno mewn portffolio. Wrth baratoi'r portffolio, mae'n rhaid i fyfyrwyr ac aseswyr ymarfer roi sylw priodol i gyfrinachedd defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr. Yn ogystal, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod yr holl waith ysgrifenedig yn cael ei gynhyrchu i safon broffesiynol. Mae'n rhaid i'r portffolio gael ei gyflwyno'n foddhaol o ran sillafu, gramadeg ac eglurder mynegiant, ac anogir myfyrwyr yn gryf i gadw cymaint o dystiolaeth â phosibl mewn fformat electronig.

Erbyn diwedd y rhaglen, bydd angen i fyfyrwyr allu bodloni'r safonau a ddisgrifir yn y SGC ar gyfer gwaith cymdeithasol.

Mae'r radd gwaith cymdeithasol yn ddyfarniad academaidd a phroffesiynol integredig sy'n arwain at reoleiddio proffesiynol. Fel y cyfryw, mae'n rhaid i bob math o addysgu, dysgu ac asesu, boed hynny mewn coleg neu asiantaeth, gynnwys theori ac ymarfer. Er mwyn cyflawni'r radd yn llwyddiannus, mae'n rhaid i fyfyrwyr:

- gwblhau pob lefel o ddysgu'n llwyddiannus cyn symud ymlaen i'r nesaf;
- cwblhau o leiaf 200 o ddiwrnodau o ddysgu ymarfer asesedig yn llwyddiannus;

- darparu tystiolaeth o gymhwysedd yn unol â'r chwe Rôl Allweddol Gwaith Cymdeithasol fel y'u diffinnir gan yr ugain SGC ar gyfer Gwaith Cymdeithasol 2011;
- dangos dealltwriaeth, dadansoddiad a defnydd cynyddol o *Gôd Ymarfer* y Cyngor Gofal;
- cwblhau pob elfen asesedig o waith academaidd yn llwyddiannus;
- dangos eu bod yn gallu defnyddio dulliau a thechnegau TGCh i gefnogi eu dysgu ac ymarfer fel a ddiffinnir gan y Datganiad Meincnodi Pwnc perthnasol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

a. Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol

Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disgrifio:

- Chwe rôl allweddol gwaith cymdeithasol proffesiynol,
- Ugain swyddogaeth gweithiwr cymdeithasol cymwys
- Ystod o ddangosyddion perfformiad sy'n disgrifio nodweddion cymhwysedd yn yr ugain swyddogaeth.

Map Swyddogaethol o Rolau Allweddol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol 2012

Rôl allweddol 1 Cynnal atebolrwydd proffesiynol	
Safon SGC 1	Cynnal sylfaen gwybodaeth a thystiolaeth gyfredol ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol
Safon SGC 2	Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio
Rôl allweddol 2 Ymarfer gwaith cymdeithasol proffesiynol	
Safon SGC 3	Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol
Safon SGC 4	Arfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol
Safon SGC 5	Rheoli materion moesegol, cyfng-gyngor a gwrthdaro
Safon SGC 6	Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol
Safon SGC 7	Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol yn ymwneud â phobl
Rôl allweddol 3 Hybu ymgysylltiad a chyfranogiad	
Safon SGC 8	Paratoi i fod yn rhan o waith cymdeithasol
Safon SGC 9	Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol
Safon SGC 10	Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau
Safon SGC 11	Eirioli ar ran pobl
Rôl allweddol 4 Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau	
Safon SGC 12	Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rhai hynny sy'n gysylltiedig
Safon SGC 13	Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth
Rôl allweddol 5 Cynllunio ar gyfer canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	
Safon SGC 14	Cynllunio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy
Safon SGC 15	Cytuno ar gynlluniau rheoli risg er mwyn hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb
Safon SGC 16	Cytuno ar gynlluniau lle y ceir risg o niwed neu gamdriniaeth
Rôl allweddol 6 Cymryd camau i gyflawni newid	
Safon SGC 17	Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid
Safon SGC 18	Cael at adnoddau i gefnogi datrysiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
Safon SGC 19	Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol
Safon SGC 20	Tynnu'n ôl ar ddiwedd cyfranogiad gwaith cymdeithasol

Er mwyn i fyfyrwyr gwblhau rhaglen radd mae'n rhaid iddynt allu bodloni'r SGC sy'n ofynnol.

Bydd angen i fyfyrwyr ddangos eu datblygiad yn ystod cyfnod y radd gwaith cymdeithasol tuag at y chwe rôl allweddol a'r ugain SGC.

Canllaw i Aseswyr Ymarfer

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio tair lefel y radd. Ym mhob lefel ceir disgrifiad o'r canlynol:

- Pwyslais y dysgu
- Yr hyn y mae'n rhaid i fyfyrwyr ei ddangos
- Y meini prawf a ddefnyddir i wneud dyfarniadau asesu
- Unrhyw ofynion penodol yn ymwneud ag asesu neu gasglu tystiolaeth
- Ffurflen y gallai'r myfyriwr ei defnyddio i gofnodi ei dystiolaeth yn unol â phob un o'r SGC a'r *Côd Ymarfer*.

Bydd pob rhaglen gradd gwaith cymdeithasol yn datblygu ei hymagwedd at asesu a fydd yn cynnwys gofynion portffolio. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn llawlyfr y rhaglen neu'r llawlyfr dysgu ymarfer. Y myfyrwyr sy'n gyfrifol am gasglu, coladu a chyflwyno tystiolaeth a'r aseswyr sy'n gyfrifol am wneud dyfarniadau ynglŷn â digonolrwydd y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Ar ddiwedd Cyfle Dysgu Ymarfer, bydd yr aseswr yn paratoi adroddiad terfynol lle y bydd yn crynhoi gallu'r myfyriwr i gyflawni'r rôl allweddol a'r SGC sy'n sail iddi. Rhoddir dwy enghraifft isod mewn perthynas ag un rôl allweddol.

Wrth wneud sylwadau ar berfformiad y myfyriwr dan bob rôl allweddol, dylai'r Aseswr Ymarfer roi enghreifftiau yn ymwneud â'r safon i gefnogi ei sylwadau, a dylai gyfeirio at y man yn y portffolio lle y gellir cael hyd i'r dystiolaeth. Mae angen cadarnhad bod y myfyriwr yn gallu bodloni'r gofynion ar gyfer pob safon. (Dylai'r dangosyddion perfformiad lywio'r mathau o weithgareddau a fydd yn darparu tystiolaeth ar gyfer y SGC – gweler atodiad 3).

Enghraifft o Grynodedb yr Aseswyr

Rôl Allweddol 3 – Hybu Ymgysylltiad a Chyfranogiad

SGC 8: Paratoi i fod yn rhan o waith cymdeithasol

SGC 9: Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

SGC 10: Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau

SGC 11: Eirioli ar ran pobl eraill

ENGHRAIFFT 1

Mae Jane wedi dangos llawer iawn o sgil wrth hybu ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r deunydd arsylwi uniongyrchol (AU), yn enwedig wrth baratoi ar gyfer AU 3 ac AU 4, yn enghreifftiau o'i thrylwyredd. Gwelir tystiolaeth o'i hymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau yn arbennig yn AU 3 lle'r oedd y defnyddiwr gwasanaeth yn teimlo ei bod yn gallu ymddiried yn Jane a siarad am ei phryderon am y tro cyntaf. Mae Jane yn berson anogol a hawdd mynd ati ac mae hyn wedi galluogi defnyddwyr gwasanaethau i deimlo ei bod hi'n eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau – maes a drafodwyd yn ystod goruchwyliaeth (gweler y nodiadau yn ymwneud â chyfarfod 6). Mae ei hadroddiad myfyriol ar gyfer AU 2 a'r adborth gan y defnyddiwr gwasanaeth yn enghreifftiau ardderchog o sut y mae'n eirioli ar ran pobl eraill.

Mae Jane wedi dangos tystiolaeth o'i chymhwysedd yn y Rôl Allweddol hon a'r safonau sy'n sail iddi.

ENGHRAIFFT 2

Trwy gydol y Cyfle Dysgu Ymarfer, achubodd Jane ar gyfleoedd i baratoi ar gyfer ymyrraeth gyda'r defnyddwyr gwasanaethau. Mae gwaith paratoi 1 yn dangos sut y cysylltodd ag asiantaethau eraill i gael gwybodaeth berthnasol cyn cynnal yr arsylwi. Yn nodiadau goruchwyllo 3, dangosodd Jane ei dealltwriaeth o ofynion cyfreithiol mewn perthynas â defnyddiwr gwasanaeth A, ac ystyriodd sut yr oedd yr ymyrraeth wedi effeithio ar ansawdd bywyd y defnyddiwr gwasanaeth (SGC 8).

Yn AU 3, cadeiriodd Jane gyfarfod amlasiantaethol. Trwy gydol y cyfarfod hwn, dangosodd y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â'r holl gyfranogwyr. Sicrhaodd Jane fod y defnyddiwr gwasanaeth yn cael cyfle i leisio'i farn ynglŷn â'r asesiad a'r cynllun arfaethedig. Gwelir tystiolaeth o hyn yn adborth defnyddiwr gwasanaeth 3 sy'n datgan ei fod yn teimlo iddo gael ei gynnwys yn llawn yn y cyfarfod ac yn y broses gwneud penderfyniad yn dilyn hynny (SGC 9,10). Gellir gweld tystiolaeth ategol ar gyfer SGC 11 yn nhystiolaeth tyst 1. Rwyf yn hyderus bod Jane yn gymwys yn y rôl allweddol hon ar y lefel hon a'i bod yn gallu bodloni gofynion pob un o'r SGC a nodwyd.

Y lefel y mae'r myfyriwr yn gweithredu arni: (nodwch y radd briodol)

Gwael

Boddhaol

Da

a. Pwyslais Dysgu

Ar lefel 1 mae'n rhaid i fyfyrwyr:

- ddangos addasrwydd i symud ymlaen ag ymarfer gwaith cymdeithasol
- disgrifio, enghreifftio a chymhwyso'r *Côd Ymarfer*.

Ar lefel 2 mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos:

- eu bod yn cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol
- dadansoddiad a gwerthusiad o'u cymhwysiad o'r *Côd Ymarfer*.

Ar lefel 3 mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos:

- datblygiad a chadarnhad o gymhwysedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol
- eu bod yn integreiddio'n llawn ac yn dadansoddi'n feirniadol eu cymhwysiad o'r *Côd Ymarfer*.

b. Yr hyn y mae'n rhaid i fyfyrwyr ei ddangos

Ar lefel 1, mae'n ofynnol i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth yn unol â meini prawf penodol (gweler tudalen 10). Fodd bynnag, ar lefelau dau a thri mae'n rhaid darparu tystiolaeth yn unol â phob un o'r ugain SGC.

Nid oes rhaid dangos tystiolaeth o bob dangosydd perfformiad, ond bydd angen i'r aseswr ymarfer ddefnyddio ei farn broffesiynol i sicrhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y myfyriwr o ansawdd ddigonol i bennu bod y lefel briodol o gymhwysedd wedi'i chyflawni ac y gellir ei chynnal. Gallai unrhyw wrtharwydd o dystiolaeth o gymhwysedd yn unol â SGC awgrymu nad yw myfyriwr wedi cyflawni'r lefel ofynnol o gymhwysedd.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos tystiolaeth fod sgiliau a gwybodaeth wedi'u hintegreiddio â dealltwriaeth gyd-destunol berthnasol, gan gynnwys tystiolaeth o gymhwyso dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, diwylliannau, ieithoedd, daearyddiaeth a sefydliadau Cymru yn eu hymarfer.

Bydd cynnwys portffolio terfynol ar lefelau dau a thri yn amrywio yn ôl lefel yr astudio, a bydd gofynion a manylion rhaglenni unigol ar gael yn llawlyfr y rhaglen. Fodd bynnag, byddant yn cynnwys y canlynol:

- Cytundeb Dysgu Ymarfer yn cynnwys manylion cyswllt pawb sy'n gysylltiedig, oriau'r asiantaeth a'r hyn a ddisgwylir gan y myfyriwr;
- Proffiliau o'r myfyriwr (gan gynnwys unrhyw addasiad rhesymol y mae angen ei wneud i'r rhaglen ac anghenion dysgu a nodwyd) a'r asiantaeth;
- Proffil o'r asiantaeth a'r gwasanaeth a ddarperir ganddi;
- Gwirio Datgeliad ac archwiliadau Gwahardd;
- Cytundeb goruchwyliaeth a thystiolaeth o gyfarfodydd goruchwyllo, gan gynnwys agendâu a nodiadau goruchwyllo llofnodedig o bum cyfarfod o leiaf;
- Dogfennau Arsylwi Uniongyrchol, gan gynnwys paratodau ar gyfer arsylwi, myfyrion gan y myfyriwr, ac adborth gan yr aseswr ymarfer a defnyddwyr gwasanaethauau a chynhalwyr;
- Adroddiad hanner ffordd ar gynnydd y myfyriwr;
- Adroddiad terfynol yr Aseswr Ymarfer gydag argymhelliad ynglŷn â llwyddo/methu;
- Grid tystiolaeth y SGC a'r *Côd Ymarfer*;
- Tystiolaeth ddogfennol arall fel y bo'n briodol.

Lefel 1 – Addasrwydd i Symud Ymlaen ag Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Ar y lefel hon, aserir pa un a yw myfyrwyr yn addas ar gyfer addysg a hyfforddiant pellach ym maes gwaith cymdeithasol ar sail arsylwi eu hymarfer a'r holl waith asesedig arall. Felly, mae'n ofynnol i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd yn unol ag agweddau penodol ar rolau allweddol gweithiwr cymdeithasol fel y'u diffinnir yn y SGC.

1. Bydd angen i fyfyrwyr ddangos:
 - 1.1. bod ganddynt y sgiliau rhyngpersonol a'r gwerthoedd sydd eu hangen er mwyn iddynt fod yn addas ac yn ddiogel i weithio gyda defnyddwyr gwasanaethauau a chynhalwyr;
 - 1.2. eu bod wedi cael dealltwriaeth, yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaethauau a chynhalwyr, o effaith ymarfer gwaith cymdeithasol arnynt⁴;
 - 1.3. eu bod wedi disgrifio, enghreifftio a chymhwyso'r Côd Ymarfer trwy eu hymarfer, eu hymddygiad a'u gwaith academaidd⁵.

2. Er mwyn i aseswyr allu gwneud y dyfarniad hwn, bydd angen i fyfyrwyr ddangos eu bod yn bodloni'r safonau canlynol:

- Rôl allweddol 1, safon 2, Dangosydd Perfformiad 1:
Ceisio goruchwyliaeth broffesiynol i ddatblygu ymarfer gwaith cymdeithasol atebol
- Rôl Allweddol 1, safon 2, Dangosydd Perfformiad 2:
Paratoi ar gyfer goruchwyliaeth broffesiynol mewn ffyrdd a fydd yn cynyddu ei heffeithiolrwydd cymaint â phosibl
- Rôl allweddol 2, safon 5, Dangosydd Perfformiad 1:
Adnabod materion moesegol, cyfyng-gyngor a gwrthdaro sy'n codi yn ystod ymarfer gwaith cymdeithasol
- Rôl allweddol 3, safon 9, Dangosydd Perfformiad 1:
Cynllunio sut i ddefnyddio cyfathrebu i sicrhau ymgysylltiad cychwynnol
- Rôl allweddol 3, safon 9, Dangosydd Perfformiad 2:
Defnyddio sgiliau cyfathrebu i sefydlu'r berthynas gwaith cymdeithasol

⁴ Cymerir paragraffau 1.1 ac 1.2 yn uniongyrchol o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Radd Gwaith Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn y Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru, Cyngor Gofal Cymru 2012

⁵ Cymerir paragraff 1.3 o'r Fframwaith Asesu ar gyfer y Radd Gwaith Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn y Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru, Cyngor Gofal Cymru 2012

Lefel 1 – Addasrwydd i Symud Ymlaen ag Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Ar y lefel hon, asesir pa un a yw myfyrwyr yn addas ar gyfer addysg a hyfforddiant pellach ym maes gwaith cymdeithasol. Bydd angen tystiolaeth bod y myfyrwyr:

- yn bodloni'r meini prawf a nodir isod ac,
- yn disgrifio, enghreifftio a chymhwyso'r *Côd Ymarfer*.

Rôl Allweddol 1: Cynnal Atebolrwydd Proffesiynol

SGC Safon 2: Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrto

Dangosyddion Perfformiad	Ffynhonnell a Lleoliad y Dystiolaeth
	e.e. Adroddiad Myfyriol (AM), adborth gan y Defnyddiwr Gwasanaethau (ADG), Nodiadau Goruchwyllo (NG1)
Ceisio goruchwyliaeth broffesiynol i ddatblygu ymarfer gwaith cymdeithasol atebol	
Paratoi ar gyfer goruchwyliaeth broffesiynol ffurfiol mewn ffyrdd sy'n cynyddu ei heffeithiolrwydd cymaint â phosibl	

Rôl Allweddol 2: Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Proffesiynol

SGC Safon 5: Rheoli materion moesegol, cyfyng-gyngor a gwrthdaro

Dangosyddion Perfformiad	Ffynhonnell a Lleoliad y Dystiolaeth
	e.e. Adroddiad Myfyriol (AM), adborth gan y Defnyddiwr Gwasanaethau (ADG), Nodiadau Goruchwyllo (NG1)
Adnabod materion moesegol, cyfyng-gyngor a gwrthdaro sy'n codi yn ystod ymarfer gwaith cymdeithasol	

Rôl Allweddol 3: Hybu Ymgysylltiad a chyfranogiad

SGC Safon 9: Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

Dangosyddion Perfformiad	Ffynhonnell a Lleoliad y Dystiolaeth
	e.e. Adroddiad Myfyriol (AM), adborth gan y Defnyddiwr Gwasanaethau (ADG), Nodiadau Goruchwyllo (NG1)
Cynllunio sut i ddefnyddio cyfathrebu i sicrhau ymgysylltiad cychwynnol	
Defnyddio sgiliau cyfathrebu i sefydlu'r berthynas gwaith cymdeithasol	

Lefel 1 – Addasrwydd i Symud Ymlaen ag Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Côt Ymarfer

Côt Ymarfer	Tystiolaeth o ddisgrifio, enghreifftio a chymhwyso'r Côt Ymarfer
Safon 1 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi amddiffyn hawliau a hybu buddiannau defnyddwyr gwasanaethauau a chynhalwyr.	
Safon 2 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr gwasanaethauau a chynhalwyr.	
Safon 3 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi hybu annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethauau ar yr un pryd â'u hamddiffyn rhag perygl neu niwed cyn belled â phosibl.	
Safon 4 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi barchu hawliau defnyddwyr gwasanaethauau ar yr un pryd â cheisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio eu hunain na phobl eraill.	
Safon 5 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.	
Safon 6 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi fod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau.	

Lefel 2 – Cymhwyso Gwybodaeth, Sgiliau a Gwerthoedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Ar y lefel hon, dylai myfyrwyr fod yn cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd gwaith cymdeithasol, gan gynnwys canfyddiadau ymchwil, yn eu hymarfer a bydd angen iddynt ddangos eu bod wedi datblygu ymarfer beirniadol, dadansoddol a myfyriol.

Wrth wneud dyfarniad ynglŷn â chymhwysedd myfyrwyr ar y lefel hon, fe'u hasesir ar sail:

- Y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer pob un o'r ugain SGC ar y lefel hon. Bydd angen i aseswyr ymarfer fod yn effro i unrhyw wrthdystiolaeth ar gyfer pob safon;
- Tystiolaeth o ddadansoddi a gwerthuso eu cymhwysiad o'r *Côd Ymarfer* trwy eu hymarfer, eu hymddygiad a'u gwaith academaidd.

Mae'r dangosyddion perfformiad a briodolwyd i lefel dau yn enghreifftiau o gymhwysedd a all lywio'r asesiad.

Cynhelir isafswm o bedwar Arsylwad Uniongyrchol o ymarfer y myfyriwr gyda defnyddwyr gwasanaethauau gofal cymdeithasol. Mae'n rhaid i o leiaf dri o'r rhain gael eu cynnal gan yr aseswr ymarfer, a gall y llall gael ei gynnal gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig arall.

Dylid ceisio adborth gan y defnyddiwr gwasanaethau ynglŷn â phob Arsylwad Uniongyrchol, a bydd angen o leiaf dri darn o adborth.

Lefel 2 – Cymhwyso Gwybodaeth, Sgiliau a Gwerthoedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gellir amlinellu'r dystiolaeth mewn siart crynhoi tystiolaeth. Gellir ailadrodd hyn ar gyfer pob rôl allweddol.

- Mae'n rhaid darparu tystiolaeth yn unol â **phob SGC ar gyfer pob Rôl Allweddol**
- Mae'r Dangosyddion Perfformiad (gweler atodiad 3) yn rhoi enghreifftiau o'r math o dystiolaeth sydd ei hangen
- Mae angen tystiolaeth hefyd o ddadansoddiad a gwerthusiad y myfyrwr o sut y maent yn cymhwyso chwe safon y *Côd Ymarfer*

Rôl Allweddol 1: Cynnal Atebolrwydd Proffesiynol

SGC Safon 1:

Cynnal sylfaen gwybodaeth a thystiolaeth gyfredol ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol

Enghraifft	Ffynhonnell a Lleoliad y Dystiolaeth
	e.e. Adroddiad Myfyriol (AM), adborth gan y Defnyddiwr Gwasanaeth (ADG), Nodiadau Goruchwylio (NG1), Arsylwi Uniongyrchol (AU 1)

SGC Safon 2:

Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio

Enghraifft	Ffynhonnell a Lleoliad y Dystiolaeth
	e.e. Adroddiad Myfyriol (AM), adborth gan y Defnyddiwr Gwasanaeth (ADG), Nodiadau Goruchwylio (NG1), Arsylwi Uniongyrchol (AU 1)

Lefel 2 – Cymhwyso Gwybodaeth, Sgiliau a Gwerthoedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Côd Ymarfer	Tystiolaeth o ddadansoddi a gwerthuso cymhwysiad o'r Côd Ymarfer
Safon 1 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi amddiffyn hawliau a hybu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr.	
Safon 2 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr.	
Safon 3 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi hybu annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethau ar yr un pryd â'u hamddiffyn rhag perygl neu niwed cyn belled â phosibl.	
Safon 4 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi barchu hawliau defnyddwyr gwasanaethau ar yr un pryd â cheisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio eu hunain na phobl eraill.	
Safon 5 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.	
Safon 6 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi fod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau.	

Lefel 3 – Datblygu a Chadarnhau Cymhwysedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Lefel 3 – Datblygu a Chadarnhau Cymhwysedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Gan adeiladu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd a gyflawnwyd ar lefel dau, dylai myfyrwyr ar y lefel hon fod yn dangos barn broffesiynol, ymyrraeth a myfyrio beirniadol ar draws eu hymarfer.

Wrth wneud dyfarniad ynglŷn â chymhwysedd myfyrwyr ar y lefel hon, fe'u hasesir ar sail:

- Y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer pob un o'r ugain SGC ar y lefel hon. Bydd angen i aseswyr ymarfer fod yn effro i unrhyw wrthdystiolaeth ar gyfer pob safon;
- Tystiolaeth o integreiddio'n llawn a dadansoddi'n feirniadol eu cymhwysiad o'r *Côd Ymarfer* trwy eu hymarfer, eu hymddygiad a'u gwaith academaidd.

Mae'r dangosyddion perfformiad a briodolwyd i lefel tri yn enghreifftiau o gymhwysedd a all lywio'r asesiad.

Cynhelir isafswm o bum Arsylwad Uniongyrchol o ymarfer y myfyriwr gyda defnyddwyr gwasanaethauau gofal cymdeithasol. Mae'n rhaid i o leiaf bedwar o'r rhain gael eu cynnal gan yr aseswr ymarfer, a gall y llall gael ei gynnal gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig arall.

Dylid ceisio adborth gan y defnyddiwr gwasanaethau ynglŷn â phob Arsylwad Uniongyrchol, a bydd angen o leiaf dri darn o adborth.

Lefel 3 – Datblygu a Chadarnhau Cymhwysedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Fformat yr Adroddiad ar gyfer Tystiolaeth o Ddysgu Ymarfer

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gellir amlinellu'r dystiolaeth mewn siart crynhoi tystiolaeth. Gellir ailadrodd hyn ar gyfer pob rôl allweddol.

- Mae'n rhaid darparu tystiolaeth yn unol â **phob SGC ar gyfer pob Rôl Allweddol**
- Mae'r Dangosyddion Perfformiad (gweler atodiad 3) yn rhoi enghreifftiau o'r math o dystiolaeth sydd ei hangen
- Mae angen tystiolaeth hefyd o integreiddiad llawn a dadansoddiad beirniadol y myfyrwyr o sut y maent yn cymhwyso chwe safon y *Côd Ymarfer*

Rôl Allweddol 1: Cynnal Atebolrwydd Proffesiynol

SGC Safon 1:

Cynnal sylfaen gwybodaeth a thystiolaeth gyfredol ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol

Enghraifft

Ffynhonnell a Lleoliad y Dystiolaeth

e.e. Adroddiad Myfyriol (AM), adborth gan y Defnyddiwr Gwasanaeth (ADG), Nodiadau Goruchwylio (NG1), Arsylwi Uniongyrchol (AU 1)

SGC Safon 2:

Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio

Enghraifft

Ffynhonnell a Lleoliad y Dystiolaeth

e.e. Adroddiad Myfyriol (AM), adborth gan y Defnyddiwr Gwasanaeth (ADG), Nodiadau Goruchwylio (NG1), Arsylwi Uniongyrchol (AU 1)

Lefel 3 – Datblygu a Chadarnhau Cymhwysedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Côd Ymarfer	Tystiolaeth o integreiddiad llawn a dadansoddiad beirniadol o’u cymhwysiad o’r <i>Côd Ymarfer</i>
Safon 1 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae’n rhaid i chi amddiffyn hawliau a hybu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr.	
Safon 2 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae’n rhaid i chi ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr.	
Safon 3 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae’n rhaid i chi hybu annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethau ar yr un pryd â’u hamddiffyn rhag perygl neu niwed cyn belled â phosibl.	
Safon 4 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae’n rhaid i chi barchu hawliau defnyddwyr gwasanaethau ar yr un pryd â cheisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio eu hunain na phobl eraill.	
Safon 5 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae’n rhaid i chi gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.	
Safon 6 Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae’n rhaid i chi fod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a gwella eich gwybodaeth a’ch sgiliau.	

Atodiad 1 – Tystiolaeth o Fodloni'r Côt Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn y Radd Gwaith Cymdeithasol

Ar Lefel 1 o'r radd gwaith cymdeithasol, mae'n rhaid i fyfyrwyr **ddisgrifio, enghreifftio a chymhwyso'r Côt Ymarfer** trwy eu hymarfer, eu hymddygiad a'u gwaith academaidd.

Ar Lefel 2 o'r radd gwaith cymdeithasol, mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos tystiolaeth o **ddadansoddi a gwerthuso eu cymhwysiad o'r Côt Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol** trwy eu hymarfer, eu hymddygiad a'u gwaith academaidd.

Ar Lefel 3 o'r radd gwaith cymdeithasol, mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos tystiolaeth o **integreiddio'n llawn a dadansoddi'n feirniadol eu cymhwysiad o'r Côt Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol** trwy eu hymarfer, eu hymddygiad a'u gwaith academaidd.

Dylid darparu enghreifftiau o dystiolaeth o ymarfer ar gyfer pob safon ar bob lefel.

Safon 1

Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi amddiffyn hawliau a hybu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr.

Mae hyn yn cynnwys:

- 1.1 trin pob person fel unigolyn;
- 1.2 parchu a, lle y bo'n briodol, hybu safbwyntiau a dymuniadau unigol defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr;

- 1.3 cefnogi hawliau defnyddwyr gwasanaethau i reoli eu bywydau a gwneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn;
- 1.4 parchu a chynnal urddas a phreifatrwydd defnyddwyr gwasanaethau;
- 1.5 hybu cyfle cyfartal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr; a
- 1.6 pharchu amrywiaeth a gwahanol ddiwylliannau a gwerthoedd.

Safon 2

Fel gweithiwr cymdeithasol, mae'n rhaid i chi ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr.

Mae hyn yn cynnwys:

- 2.1 bod yn onest ac yn deilwng o ymddiriedaeth;
- 2.2 cyfathrebu mewn ffordd briodol, agored, gywir a syml;
- 2.3 parchu gwybodaeth gyfrinachol ac esbonio polisiau'r asiantaeth ynglŷn â chyfrinachedd yn eglur i ddefnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr;
- 2.4 bod yn ddibynadwy;

- 2.5 cadw at ymrwymïadau gwaith, cytundebau a threfniadau a, phan nad yw'n bosibl gwneud hynny, esbonio pam i ddefnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr;
- 2.6 datgan materion a allai greu gwrthdaro buddiannau a gwneud yn siwr nad ydynt yn dylanwadu ar eich barn neu'ch ymarfer; a
- 2.7 glynu wrth bolisiau a gweithdrefnau yn ymwneud â derbyn rhoddion ac arian gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr.
- 3.6 cydymffurfio â pholisïau iechyd a diogelwch y cyflogwr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau;
- 3.7 helpu defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr i gwyno, gan ystyried cwynion o ddifrif ac ymateb iddynt neu eu trosglwyddo i'r unigolyn priodol; a
- 3.8 chydabod a defnyddio'n gyfrifol y pŵer sy'n deillio o'ch gwaith gyda defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr.

Safon 3

Fel gweithiwr cymdeithasol, mae'n rhaid i chi hybu annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethau ar yr un pryd â'u hamddiffyn rhag perygl neu niwed cyn belled â phosibl.

Mae hyn yn cynnwys:

- 3.1 hybu annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethau a'u cynorthwyo i ddeall ac arfer eu hawliau;
- 3.2 defnyddio prosesau a gweithdrefnau sefydledig i herio ac adrodd am ymddygiad ac arferion peryglus, difriol, gwahaniaethol neu ymelwol;
- 3.3 dilyn arferion a gweithdrefnau a luniwyd i'ch diogelu chi a phobl eraill rhag ymddygiad treisgar a difriol yn y gwaith;
- 3.4 rhoi gwybod i'ch cyflogwr neu'r awdurdod priodol am anawsterau gweithredol neu anawsterau yn ymwneud ag adnoddau a allai eich rhwystro rhag darparu gofal diogel;
- 3.5 rhoi gwybod i'ch cyflogwr neu awdurdod priodol lle y gallai arferion cydweithwyr fod yn annïogel neu'n cael effaith niweidiol ar safonau gofal;

Safon 4

Fel gweithiwr cymdeithasol, mae'n rhaid i chi barchu hawliau defnyddwyr gwasanaethau ar yr un pryd â cheisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio eu hunain na phobl eraill.

Mae hyn yn cynnwys:

- 4.1 cydnabod bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau yr hawl i gymryd risgiau, a'u helpu i nodi a rheoli risgiau posibl a gwirioneddol i'w hunain a phobl eraill;
- 4.2 dilyn polisïau a gweithdrefnau asesu risg i asesu pa un a yw ymddygiad defnyddwyr gwasanaethau yn cynrychioli risg o niwed i'w hunain neu bobl eraill;
- 4.3 cymryd camau angenrheidiol i leihau cymaint â phosibl ar y risg y gallai defnyddwyr gwasanaethau wneud niwed gwirioneddol neu bosibl i'w hunain neu bobl eraill; a
- 4.4 sicrhau bod cydweithwyr ac asiantaethau perthnasol yn cael gwybod am ganlyniadau a goblygiadau asesiadau risg.

Safon 5

Fel gweithiwr cymdeithasol, mae'n rhaid i chi gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Yn benodol, mae'n rhaid i chi beidio â:

- 5.1 cham-drin, esgeuluso neu niweidio defnyddwyr gwasanaethau, chynhalwyr neu gydweithwyr;
- 5.2 ymelwa ar ddefnyddwyr gwasanaethau, cynhalwyr neu gydweithwyr mewn unrhyw ffordd;
- 5.3 camfanteisio ar ymddiriedaeth defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr, neu gamfanteisio ar y mynediad sydd gennych at wybodaeth bersonol amdanynt, neu at eu heiddo, eu cartref neu eu gweithle;
- 5.4 ffurfio perthynas amhriodol â defnyddwyr gwasanaethau;
- 5.5 gwahaniaethu'n anghyfreithlon neu'n anghyfiawndwy yn erbyn defnyddwyr gwasanaethau, cynhalwyr neu gydweithwyr;
- 5.6 cydoddef unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon neu anghyfiawndwy gan ddefnyddwyr gwasanaethau, cynhalwyr neu gydweithwyr;
- 5.7 rhoi eich hun neu bobl eraill mewn perygl diangen; neu
- 5.8 ymddwyn mewn ffordd, yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith, a allai godi amheuaeth ynghylch eich addasrwydd i weithio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Safon 6

Fel gweithiwr cymdeithasol, mae'n rhaid i chi fod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau.

Mae hyn yn cynnwys:

- 6.1 bodloni safonau ymarfer perthnasol a gweithio mewn ffordd gyfreithlon, ddiogel ac effeithiol;
- 6.2 cynnal cofnodion eglur a chywir fel sy'n ofynnol gan weithdrefnau a sefydlwyd ar gyfer eich gwaith;
- 6.3 rhoi gwybod i'ch cyflogwr neu'r awdurdod priodol am unrhyw anawsterau personol a allai effeithio ar eich gallu i wneud eich gwaith yn gymwys ac yn ddiogel;
- 6.4 ceisio cymorth gan eich cyflogwr neu'r awdurdod priodol os nad ydych yn teimlo eich bod gallu cyflawni agwedd benodol ar eich gwaith neu nad ydych wedi'ch paratoi'n ddigonol i'w chyflawni, neu os ydych yn ansicr ynghylch sut i fynd ati i gyflawni elfen benodol o'ch gwaith;
- 6.5 gweithio mewn ffordd agored gan gydweithio gyda chydweithwyr a'u trin â pharch;
- 6.6 cydnabod mai chi sy'n parhau i fod yn gyfrifol am waith a ddirprwywyd gennych i weithwyr eraill;
- 6.7 cydnabod a pharchu rolau ac arbenigedd gweithwyr o asiantaethau eraill a gweithio mewn partneriaeth â hwy;
- 6.8 ymgymryd â hyfforddiant perthnasol er mwyn cynnal a gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau a chyfrannu at ddysgu a datblygu pobl eraill.

Atodiad 2 – Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Cymdeithasol 2012: Rolau Allweddol a Throsolwg o'r Safonau

**Mae'r safonau llawn ar gael ar wefan Cyngor Gofal Cymru
www.cgcmru.org.uk**

Map Swyddogaethol/Rolau Allweddol ar gyfer SGC Gwaith Cymdeithasol

Rôl allweddol 1	Cynnal atebolrwydd proffesiynol	
SGC 1	Cynnal sylfaen gwybodaeth a thystiolaeth gyfredol ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn broffesiynol, mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol sicrhau bod ganddynt sylfaen barhaus o wybodaeth a thystiolaeth sy'n tynnu ar lenyddiaeth academaidd, gwaith ymchwil, dealltwriaeth leol a deddfwriaeth genedlaethol yn ymwneud â'r maes gweithgarwch. Mae'r safon yn sefydlu ymagwedd gynlluniedig at astudio a gwaith ymchwil parhaus a fydd yn helpu i sicrhau ymarfer gwaith cymdeithasol sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth ac yn gadarn yn gyfreithiol.
SGC 2	Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae goruchwyliaeth broffesiynol a myfyrio personol yn hollbwysig i ddatblygu ymarfer, ac mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol wneud defnydd effeithiol o'r ddau. Yn eu tro, mae angen i'r rhain gael eu llywio gan adborth gan bobl eraill, a'u hategu gan gymorth llai ffurfiol pan fo hyn yn ddefnyddiol neu'n angenrheidiol. Mae'r safon yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn ac yn sicrhau bod dysgu newydd yn cael ei integreiddio o fewn ymarfer, er mwyn gwella ymarfer unigol a chyfrannu at ddatblygu'r proffesiwn yn gyffredinol.

**Rôl
allweddol 2****Ymarfer gwaith cymdeithasol proffesiynol**

SGC 3	Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae gwaith cymdeithasol yn gofyn llawer gan weithwyr cymdeithasol o ran eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol, ond hefyd o ran eu galluoedd personol. Mae'r gwaith yn gallu effeithio ar eu lles personol, yn gorfforol ac yn emosiynol. Mae'r safon yn mynd i'r afael â'r angen i gynllunio'r ffordd orau o ddefnyddio amser, egni ac arbenigedd, y ffordd orau o aros yn ddiogel mewn sefyllfaoedd lle y ceir risg, a sut i reoli'r rôl gwaith cymdeithasol o fewn ei hamrywiol gyd-destunau a chyfyngiadau.
SGC 4	Arfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau. Yr hyn sydd wrth wraidd ymarfer gwaith cymdeithasol yw'r angen i wneud dyfarniadau a fydd yn effeithio ar fywydau pobl eraill, a hynny weithiau mewn amgylchiadau heriol neu gydag effeithiau pellgyrhaeddol. Mae'n rhaid gwneud dyfarniadau annibynnol hyd yn oed wrth weithio mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mewn partneriaeth agos â phobl eraill. Mae'r safon yn mynegi sut y mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol ddadansoddi gwybodaeth a'i goblygiadau mewn ffordd drylwyr ac ystyriol, gan arwain at ddyfarniadau y gellir ei datgan yn hyderus er mwyn sicrhau pennaf les y rhai hynny sy'n gysylltiedig.
SGC 5	Rheoli materion moesegol, cyfyng-gyngor a gwrthdaro	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae'r sefyllfaoedd cymhleth sy'n wynebu gweithwyr cymdeithasol yn aml yn cyflwyno materion, cyfyng-gyngor a gwrthdaro sy'n cynnwys elfen foesegol gref. Gallai'r rhain godi o dyndra rhwng hawliau a chyfrifoldebau, rhwng risg ac amddiffyn, a rhwng angen a aseswyd a'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r safon yn mynd i'r afael â'r cylch ymchwil, myfyrio, gweithredu a dysgu yng nghyd-destun gwneud penderfyniadau moesegol.

SGC 6	Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau. Mae gwaith amlddisgyblaethol effeithiol yn elfen hollbwysig o waith cymdeithasol: mae'n rhaid rhannu'r wybodaeth sy'n hysbys i wahanol asiantaethau er mwyn nodi'r rhai hynny sydd mewn perygl, mae'n rhaid cydlynu sgiliau gwahanol broffesiynau er mwyn gwneud lles i'r rhai hynny sydd ag anghenion cymhleth, ac mae'n rhaid cronni adnoddau gwahanol asiantaethau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safon yn mynd i'r afael ag elfennau gwaith amlddisgyblaethol ar yr un pryd â chynnal rôl a chyfraniad arbennig y gweithiwr cymdeithasol.
SGC 7	Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol yn ymwneud â phobl	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau, ac eraill y mae eu gwaith yn cynnwys paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol mewn cyd-destunau tebyg. Mae'n rhaid i'r adroddiadau a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau am fywydau pobl fod yn gywir ac yn onest, ac wedi'u cyflwyno'n gymhellol a'u lledaenu'n gyfrifol. Mae technoleg gwybodaeth yn cynnig ffyrdd newydd ac effeithiol o gyflwyno a rhannu gwybodaeth. Mae'r safon yn mynd i'r afael ag arferion ar gyfer ysgrifennu adroddiadau, cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth o ansawdd uchel yng nghyd-destun gofynion cyfreithiol, sefydliadol a moesegol.
Rôl allweddol 3 Hybu ymgysylltiad a chyfraniad		
SGC 8	Paratoi i fod yn rhan o waith cymdeithasol	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Gall paratoi'n annigonol cyn cysylltiad gwaith cymdeithasol cychwynnol fod yn amharchus, yn ffynhonnell rhwystredigaeth ac, o bosibl, yn beryglus. Mae'n rhaid i'r angen i baratoi'n llawn gael ei gydbwyso â meddwl agored sy'n osgoi rhagdybiaethau ac sy'n cydnabod yr arbenigedd sydd gan bobl am eu sefyllfaoedd eu hunain, a allai fod wedi'i gyfleu yn y wybodaeth sydd eisoes ar gael neu beidio. Mae'r safon yn mynd i'r afael â'r ffordd orau o gasglu gwybodaeth amrywiol (hyd yn oed os yw'n anghyflawn) a'i defnyddio i gynllunio'r dechrau gorau ar gyfer bod yn rhan o waith cymdeithasol.

SGC 9	Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae cynnwys pobl mewn archwilio a mynd i'r afael â'u hamgylchiadau eu hunain yn rhan hollbwysig o ymarfer gwaith cymdeithasol sy'n cydblethu â holl agweddau eraill y rôl. Mae'n mynnu bod gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio eu sgiliau a'u priodweddau eu hunain fel adnoddau i feithrin a chynnal ymgysylltiad, a hynny weithiau pan geir amharodrwydd neu wrthwynebiad. Mae'r safon yn mynd i'r afael â phwysigrwydd canolog cyfathrebu a chreadigrwydd yn y cyd-destun hwn, ac yn cydnabod potensial pobl i ddefnyddio eu dyfeisgarwch eu hunain i gyflawni newid.
SGC 10	Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau, ac eraill sy'n gweithio mewn cyd-destunau tebyg. Mae'r prosesau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â gwaith cymdeithasol neu gyd-destunau tebyg yn aml yn gymhleth, ac fe allant fod yn frawychus i'r rhai hynny sy'n gysylltiedig. Mae cynorthwyo pobl i gymryd rhan yn hollbwysig a gellir gwneud hyn mewn sawl gwahanol ffordd er mwyn galluogi pobl i leisio'u barn eu hunain yn hytrach na bod rhywun yn siarad ar eu rhan yn ddiangen. Mae'r safon yn mynd i'r afael â'r broses o gefnogi cyfranogiad, o asesu gallu pobl i siarad drostynt eu hunain i gadarnhau eu bod yn deall canlyniadau eu cyfranogiad. Mae'n cydnabod bod yn rhaid i gymorth ar gyfer cyfranogiad gynnwys herio rhwystrau a gwahaniaethu yn ogystal â chynyddu gallu pobl i eirioli drostynt eu hunain.
SGC 11	Eirioli ar ran pobl	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau, ac eraill sy'n gweithio mewn cyd-destunau tebyg. Mewn sefyllfa benodol neu dros gyfnod hwy, mae'n bosibl y bydd angen cynrychioli safbwyntiau, anghenion neu ddymuniadau pobl pan nad ydynt mewn sefyllfa i wneud hynny drostynt eu hunain. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n gysylltiedig ag eirioli ar ran pobl eraill, gan gynnwys yr angen i ystyried gwrthdaro buddiannau, er mwyn cynyddu cyfranogiad cymaint â phosibl trwy gydweithio'n agos drwy gydol y broses, a sicrhau y deallir canlyniadau eirioli yn llawn.

Rôl
allweddol 4

Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau

SGC 12	Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rhai hynny sy'n gysylltiedig	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae asesu yn weithgarwch proffesiynol nodedig mewn gwaith cymdeithasol. Mae asesiad cywir a chynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu i sicrhau y bydd cyfraniad gwaith cymdeithasol dilynol yn gweddu'n briodol i fywydau ac amgylchiadau pobl, ac ni ellir dechrau cynllunio tan fod yr asesiad wedi'i gwblhau. Mae asesu risg yn nodwedd bwysig o'r broses hon (er nad yr unig un) a gall tyndra godi rhwng hawliau a chyfrifoldebau yn hyn o beth. Mae'r safon yn cydnabod bod pobl yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain, a bod gan y wybodaeth a gedwir gan bobl eraill, gan gynnwys y rhai hynny mewn asiantaethau neu ddisgyblaethau eraill, rôl hollbwysig i'w chwarae hefyd wrth lunio asesiad cyfannol.
SGC 13	Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth yn weithgarwch cymhleth a heriol sy'n canolbwyntio ar ddiogelu oedolyn, person ifanc neu blentyn sy'n agored i niwed. Mae'n cynnwys gweithio'n agos gyda disgyblaethau ac asiantaethau eraill; arfer pendantrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd lle y gallai fod gelyniaeth amlwg neu gudd; gwneud dyfarniadau anodd; a datblygu opsiynau ar gyfer gweithredu a allai arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol. Mae'n rhaid gwneud hyn oll yng nghydestun gofynion cyfreithiol a sefydliadol, a gofynion cyfrwymol eraill. Mae'r safon yn ymdrin â'r agweddau hyn ac yn amlygu'r angen i gynnal pwyslais ar yr unigolyn sydd mewn perygl, waeth pa anghenion neu faterion eraill a allai godi yn ystod y broses ymchwilio.

**Rôl
allweddol 5**

Cynllunio ar gyfer canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

SGC 14	Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae cynllunio mewn gwaith cymdeithasol yn ymwneud â cheisio ffyrdd creadigol o gyflawni canlyniadau, yn hytrach na chyfateb pobl i wasanaethau traddodiadol neu wasanaethau sydd eisoes yn bodoli. Gellir dod o hyd i ddatrysiadau yn y bobl eu hunain neu eu rhwydweithiau personol; trwy gyfuno gwasanaethau mewn ffyrdd newydd neu fwy sefydledig; neu drwy nodi'n benodol sut olwg allai fod ar gymorth wedi'i deilwra. Mae'r safon yn mynd i'r afael â'r cylch cydweithio i amlygu canlyniadau ac amcanion, archwilio datrysiadau posibl a gwirio eu hymarferoldeb, a chytuno ar gynllun sy'n cynnwys ffyrdd o brofi pa mor dda mae'r datrysiad yn gweithio.
SGC 15	Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae'r cysylltiad rhwng risg, annibyniaeth a chyfrifoldeb personol yn golygu bod rheoli risg mewn gwaith cymdeithasol yn ymgymeriad deinamig. Mae'n cynnwys cydbwysio gwahanol hawliau a chyfrifoldebau, ac archwilio ffyrdd o alluogi pobl i gymryd risgiau pan allai'r rhain wella eu bywydau. Mae'r safon yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn ar yr un pryd â chydabod y gallai mesurau diogelu penodol fod yn angenrheidiol er hynny. Mae'n gosod cynllunio ar gyfer rheoli risg yng nghyd-destun gwaith cydweithredol ac yn amlygu pwysigrwydd dod i gytundeb a rennir a monitro cynlluniau yn ymwneud â risgiau yn barhaus.
SGC 16	Cytuno ar gynlluniau lle y ceir risg o niwed neu gamdriniaeth	Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Pan fo risg niwed neu gamdriniaeth wedi'i hymchwilio a'i chadarnhau, mae'n rhaid cytuno ar gynlluniau i fynd i'r afael â'r risg fel mater o frys o fewn fframwaith amlasiantaethol. Er bod yn rhaid canolbwyntio ar sicrhau diogelwch yn y tymor byr yn y lle cyntaf, mae'n rhaid mynd i'r afael ag amcanion therapiwtig hefyd. Bydd y rhain yn cynnwys pennu'r cynllun gweithredu lleiaf niweidiol ar gyfer y tymor byr a chynllunio ar gyfer dulliau adferol, lle y bo'n bosibl, yn y tymor hwy. Mae'r safon yn ymdrin â'r meysydd hyn yng nghyd-destun gwaith amlddisgyblaethol cydweithredol.

Rôl allweddol 6	Cymryd camau i gyflawni newid
SGC 17	<p>Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid</p> <p>Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae gwybodaeth gadarn am ystod o ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, ynghyd â dirnadaeth y gweithiwr cymdeithasol ei hun wrth eu cymhwyso, yn adnoddau allweddol mewn ymarfer gwaith cymdeithasol. Gallai'r ymyrraeth ganolbwyntio ar gr p, unigolyn neu system y mae unigolyn yn gweithredu ynddi. Mae'r safon yn cydnabod y bydd angen dewis gwahanol ymyriadau ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, ac esbonio'r dewis pan fo angen. Mae'r safon hefyd yn pwysleisio'r angen i fyfyrion ofalus ar effeithiolrwydd unrhyw ymyrraeth a ddefnyddiwyd, gan fod yn agored i ddysgu ac addasu ymarfer er mwyn helpu i gyflawni newid wrth i'r ymyrraeth symud yn ei blaen.</p>
SGC 18	<p>Cael at adnoddau i gefnogi datrysiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn</p> <p>Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Yn aml, mae rôl gweithwyr cymdeithasol wrth gael at adnoddau yn cael ei llyffetheirio gan gyfyngiadau yn ymwneud â chymhwysedd a chyllid, a faint o adnoddau sydd ar gael a pha mor addas ydynt. Mae'r gallu i ddatrys problemau yn greadigol a meddwl yn arloesol yn sgiliau hollbwysig, nid dim ond i wneud y mwyaf o adnoddau prin ond hefyd i sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau eraill yn gweddu'n briodol i'r bobl y'u trefnwyd ar eu cyfer ac yn golygu y gellir cyflawni canlyniadau. Mae'r safon yn adlewyrchu'r ystyriaethau hyn ac yn cydnabod y gwahanol rolau y gallai fod angen i weithwyr cymdeithasol eu cyflawni wrth gael at adnoddau.</p>
SGC 19	<p>Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol</p> <p>Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae'n rhwydd esgeuluso gwerthuso pan fo gofynion newydd yn cael eu cyflwyno'n gyson, ond mae'n gam hanfodol er mwyn sicrhau bod ymarfer gwaith cymdeithasol a phrofiad pobl ohono yn gwella'n barhaus. Mae'n rhaid i werthuso ganolbwyntio'n bennaf ar y bobl eu hunain ac i ba raddau y maent wedi elwa ar ymyrraeth, rheoli risg ac adnoddau. Mae'r safon yn mynd i'r afael â'r broses werthuso, gan gynnwys myfyrion personol ac adolygu gwrthrychol gan ddefnyddio gwahanol safbwyntiau a mesurau, gan gynnwys agweddau sefydliadol. Mae'n cydnabod bod yn rhaid i wersi a ddysgwyd lywio ymarfer yn y dyfodol a'u bod yn gallu dylanwadu ar y proffesiwn ehangach hefyd.</p>

SGC 20

Tynnu'n ôl
ar ddiwedd
cyfranogiad
gwaith
cymdeithasol

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau. Gallai ymgysylltiad gwaith cymdeithasol â phobl benodol ddod i ben oherwydd newidiadau yn eu hamgylchiadau neu oherwydd bod gweithiwr cymdeithasol newydd yn cael ei neilltuo iddynt. Mae tynnu'n ôl mewn ffordd ystyriol yn dangos parch at y bobl sy'n gysylltiedig ac mae eglurder gwybodaeth yn tawelu eu meddyliau. Mae'r safon yn adlewyrchu'r pryderon hyn ynghyd â phrosesau ymarferol tynnu'n ôl.

Atodiad 3 – Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Lefelau Un, Dau a Thri o'r Radd Gwaith Cymdeithasol⁶

Rôl Allweddol 1: Cynnal Atebolrwydd Proffesiynol		Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3
SGC 1: Cynnal sylfaen gwybodaeth a thystiolaeth gadarn ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol				
P1	Sefydlu eich strategaeth eich hun ar gyfer cynnal sylfaen gwybodaeth a thystiolaeth gadarn ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol		*	*
P2	Ymchwilio i ofynion statudol, cyfreithiol a gweithdrefnol a llenyddiaeth academiaidd yn ymwneud ag ymarfer gwaith cymdeithasol		*	*
P3	Dadansoddi'r pwerau statudol ac anstatudol a arferir gan weithwyr cymdeithasol a sefydliadau		*	*
P4	Adolygu canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol blaenorol ar gyfer unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau lleol			*
P5	Adolygu eich gwybodaeth eich hun am faterion yn ymwneud â chydaddoldeb, tegwch, mynediad ac arferion a darpariaeth gwrthwahanïaethol			*
P6	Cyfosod gwybodaeth er mwyn deall sut mae ymarfer wedi'i seilio ar dystiolaeth yn berthnasol i'ch rôl eich hun			*
P7	Gyda chymorth, cynllunio sut i integreiddio ymchwil gyfredol ac ymchwil sy'n dod i'r amlwg yn eich ymarfer eich hun		*	*
SGC 2: Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio				
P1	Ceisio goruchwyliaeth broffesiynol i ddatblygu ymarfer gwaith cymdeithasol atebol	*	*	*
P2	Paratoi ar gyfer goruchwyliaeth broffesiynol mewn ffyrdd a fydd yn cynyddu ei heffeithiolrwydd cymaint â phosibl	*	*	*

⁶ Yn lefel 1 mae angen cyflwyno'r dystiolaeth wedi'u marcio gyda * yn erbyn y dangosyddion perfformiad. Yn lefel 2 a 3 mae'r dangosyddion wedi'u marcio gyda * yn esiamplau eglurhaol o gymhwysedd sy'n gallu hysbysu'r asesiad. Gweler tudalennau 7, 10, 13 a 16 am fwy o wybodaeth.

P3	Cael at ffynonellau ychwanegol o gymorth sy'n gydnaws ag egwyddorion gwaith cymdeithasol proffesiynol		*	*
P4	Defnyddio adborth o oruchwyliaeth a ffynonellau eraill i lywio eich myfyrio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol a'ch gwerthusiad ohono		*	*
P5	Myfyrio ar y cyd-destun diwylliannol yr ydych yn ymarfer ynddo a sut mae hyn yn effeithio ar eich gwaith		*	*
P6	Myfyrio ar eich gwerthoedd, eich credoau a'ch rhagdybiaethau eich hun a sut y maent yn effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol		*	*
P7	Integreiddio dysgu o fewn ymarfer		*	*
P8	Cyfrannu eich gwybodaeth eich hun am arfer gorau at ddatblygiad parhaus y proffesiwn			*

Rôl Allweddol 2: Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Proffesiynol

Lefel 1

Lefel 2

Lefel 3

SGC 3: Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol

P1	Gweithio o fewn cyd-destun eich sefydliad eich hun		*	*
P2	Sefydlu ffiniau eich rôl eich hun a sut mae cyfrifoldebau pobl eraill yn cysylltu â'r rhain		*	*
P3	Sicrhau eich bod yn deall prosesau y gallech fod yn ymwneud â hwy		*	*
P4	Gyda chymorth, cynllunio sut i flaenoriaethu gwaith er mwyn defnyddio eich amser yn effeithiol		*	*
P5	Cymryd camau i sicrhau eich diogelwch mewn sefyllfaoedd lle y ceir risg o niwed i chi		*	*
P6	Cydnabod yr effaith y gallai sefyllfaoedd gwaith ei chael ar eich lles a'ch ymarfer		*	*
P7	Rhoi strategaethau ar waith i ddatblygu eich gwydnwch personol a phroffesiynol			*
P8	Herio eich rhagdybiaethau eich hun a allai arwain at wahaniaethu yn eich ymarfer			*
P9	Myfyrio ar y ffordd yr ydych yn rheoli eich rôl, er mwyn sicrhau datblygiad parhaus a chofrestriad proffesiynol parhaus			*

SGC 4: Arfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol

P1	Dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth a fydd yn llywio penderfyniadau proffesiynol am sefyllfaoedd cymhleth penodol		*	*
P2	Datblygu ystod o opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r sefyllfa		*	*
P3	Gwerthuso goblygiadau gwahanol opsiynau i'r bobl sy'n gysylltiedig		*	*
P4	Arfer barn broffesiynol i wneud penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth		*	*
P5	Cyflwyno'r sail resymegol dros eich dyfarniadau proffesiynol ar lafar ac yn ysgrifenedig			*
P6	Cyfiawnhau eich dyfarniadau proffesiynol pan fo pobl eraill yn anghytuno neu'n eu herio			*
P7	Herio dyfarniadau pobl eraill os yw'n ymddangos eu bod yn gwrthdaro â'r dystiolaeth neu'n mynd yn groes i bennaf les unigolion			*
P8	Ystyried yr angen i addasu eich dyfarniad eich hun pan gyflwynir tystiolaeth newydd		*	*

SGC 5: Rheoli materion moesegol, cyfyng-gyngor a gwrthdaro

P1	Adnabod materion moesegol, cyfyng-gyngor a gwrthdaro sy'n codi yn ystod ymarfer gwaith cymdeithasol	*	*	*
P2	Adolygu ffynonellau gwybodaeth a all lywio dyfarniadau proffesiynol am faterion moesegol, cyfyng-gyngor a gwrthdaro		*	*
P3	Myfyrion ar sut y gallai eich gwerthoedd a'ch profiadau eich hun effeithio ar reoli materion moesegol, cyfyng-gyngor a gwrthdaro		*	*
P4	Gwneud dyfarniadau proffesiynol gan ystyried materion moesegol, cyfyng-gyngor a gwrthdaro			*
P5	Cynorthwyo pobl eraill i ddeall sut y gallai ystyriaethau moesegol fod wedi effeithio ar benderfyniadau a wnaed			*
P6	Gwerthuso canlyniadau sut yr ydych wedi rheoli materion moesegol, cyfyng-gyngor a gwrthdaro er mwyn llywio eich ymarfer yn y dyfodol			*

SGC 6: Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol

P1	Datblygu perthynas waith gydweithredol â gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau eraill		*	*
P2	Cynnal rôl a swyddogaeth gwaith cymdeithasol wrth weithio mewn cyd-destun amlddisgyblaethol		*	*
P3	Datblygu eich dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau pobl eraill sy'n ymwneud â gwaith amlddisgyblaethol		*	*
P4	Sicrhau bod egwyddorion, Codau Ymarfer a gwerthoedd gwaith cymdeithasol yn cael eu cymhwyso wrth weithio gyda phobl eraill		*	*
P5	Cyfrannu at amlygu a chytuno ar nodau ac amcanion y gwaith amlddisgyblaethol		*	*
P6	Negodi cyfrifoldebau sy'n parchu ffiniau cyfreithiol, moesegol, sefydliadol a phroffesiynol mewn cyd-destun amlddisgyblaethol			*
P7	Negodi cytundebau ynglŷn â systemau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth sy'n cyfrannu at sicrhau diogelwch a lles unigolion a'r gymuned ehangach			*
P8	Cymhwyso gwybodaeth a sgiliau gwaith cymdeithasol i ymddrin yn adeiladol ag anghytuno a gwrthdaro mewn perthnasoedd amlddisgyblaethol			*
P9	Cyfrannu at werthuso effeithiolrwydd y gwaith amlasiantaethol		*	*

SGC 7: Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol yn ymwneud â phobl

P1	Defnyddio iaith sy'n briodol i'r gynulleidfa darged er mwyn llunio adroddiadau proffesiynol sy'n ddadansoddol ac yn gydlynol			*
P2	Cynnal cofnodion cywir, cyflawn, adferadwy a chyfredol		*	*
P3	Sicrhau bod adroddiadau a chofnodion yn ddealladwy i'r rhai hynny sydd â hawl i'w gweld		*	*
P4	Defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth o fewn ac ar draws disgyblaethau a sefydliadau		*	*
P5	Sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a sefydliadol, gan gydbwysu'r tyndra rhwng diogelu, cyfrinachedd a diogelu data		*	*

Rôl Allweddol3: Hybu ymgysylltiad a chyfranogiad		Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3
SGC 8: Paratoi i fod yn rhan o waith cymdeithasol				
P1	Egluro manylion yr atgyfeiriad ac unrhyw risgiau cysylltiedig		*	*
P2	Ymgysylltu'n briodol â phobl eraill er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol		*	*
P3	Ymchwilio i ofynion cyfreithiol a gweithdrefnau sefydliadol sy'n berthnasol i'r cyfranogiad arfaethedig		*	*
P4	Ymchwilio i wybodaeth bellach a allai lywio eich cyfranogiad cychwynnol		*	*
P5	Myfyrio ar agweddau arnoch chi eich hun a allai gael effaith ar y berthynas gwaith cymdeithasol		*	*
P6	Cyfosod yr holl wybodaeth a gasglwyd		*	*
P7	Gyda chymorth gan bobl eraill, gwneud dyfarniad proffesiynol ynglŷn â'r math gorau o gyfranogiad cychwynnol		*	*
SGC 9: Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol				
P1	Cynllunio sut i ddefnyddio cyfathrebu i sicrhau ymgysylltiad cychwynnol	*	*	*
P2	Defnyddio sgiliau cyfathrebu i sefydlu'r berthynas gwaith cymdeithasol	*	*	*
P3	Cynorthwyo pobl i ddod o hyd i ffyrdd effeithiol o gyfleu eu safbwyntiau, eu hanghenion a'u dewisiadau		*	*
P4	Datblygu dealltwriaeth pobl eraill o'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau chi, a dyletswyddau a chyfrifoldebau'r sefydliad		*	*
P5	Cynorthwyo pobl i archwilio eu hamgylchiadau eu hunain, eu rhwydweithiau presennol ac adnoddau eraill sydd ar gael iddynt		*	*
P6	Annog pobl i gyfrannu at ddod o hyd i ffyrdd creadigol o gyflawni newid		*	*
P7	Gweithio gyda phobl eraill i fynd i'r afael ag unrhyw elyniaeth neu wrthwynebiad a wynebir			*
P8	Gwerthuso eich effaith chi eich hun o ran cynnal ymgysylltiad a gweithio mewn partneriaeth			*
P9	Ceisio adborth gan bobl ynglŷn â pha mor effeithiol fu eich ymgysylltiad â hwy		*	*
P10	Addasu'r ffordd yr ydych yn datblygu a chynnal ymgysylltiad yn sgîl myfyrio ac adborth		*	*

SGC Safon 10: Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau

P1	Asesu gallu pobl i ddefnyddio systemau a lleisio'u barn		*	*
P2	Cytuno ar lefel a natur eich cyfraniad eich hun at gynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau		*	*
P3	Sicrhau bod llenyddiaeth a dogfennau ar gael i bobl yn yr iaith a'r fformat o'u dewis		*	*
P4	Cynorthwyo pobl i ddeall cysyniadau grym a grymuso mewn gwahanol sefyllfaoedd		*	*
P5	Esbonio prosesau a gweithdrefnau er mwyn galluogi pobl i gymryd rhan mor lawn â phosibl		*	*
P6	Gweithio gyda phobl i gynyddu eu gallu i eirioli drostynt eu hunain		*	*
P7	Cyflawni eich rôl gytunedig i gynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau		*	*
P8	Cadarnhau bod pobl yn deall canlyniadau eu cyfranogiad ac unrhyw benderfyniadau a wnaed		*	*
P9	Nodi unrhyw ragfarn a gwahaniaethu a wynebir		*	*
P10	Hybu cyfiawnder cymdeithasol trwy herio systemau neu brosesau sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan		*	*
P11	Adolygu effeithiolrwydd y cymorth a ddarparwyd		*	*

SGC 11: Eirioli ar ran pobl

P1	Canfod a yw pobl am i chi eirioli ar eu rhan mewn sefyllfaoedd penodol		*	*
P2	Cadarnhau gyda phobl y canlyniadau a ddymunir o'r eiriolaeth a chanlyniadau posibl eraill		*	*
P3	Cynorthwyo pobl i gymryd rhan hyd eithaf eu gallu		*	*
P4	Gwneud dyfarniadau proffesiynol ynglŷn ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a allai godi pe byddech yn gweithredu fel eiriolwr		*	*
P5	Cydweithio â phobl i baratoi achos sy'n cynrychioli eu pennaf les		*	*
P6	Cyflwyno cynrychiolaeth i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir		*	*
P7	Cyfleu canlyniadau'r eiriolaeth mewn ffyrdd y gellir eu deall		*	*
P8	Adolygu effeithiolrwydd eiriolaeth		*	*

Rôl Allweddol 4: Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau		Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3
SGC 12: Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rhai hynny sy'n gysylltiedig				
P1	Gwrando ar adroddiadau pobl o'u sefyllfa		*	*
P2	Gweithio'n gyfannol gyda phobl i'w galluogi i nodi, egluro a mynegi eu cryfderau, eu hanghenion a'u disgwyliadau		*	*
P3	Amlygu rhwystrau sy'n creu cyfyngiadau i bobl		*	*
P4	Cynorthwyo pobl i nodi'r hyn a fyddai'n eu helpu i gynyddu eu cryfderau, eu galluoedd a'u cyflawniadau eu hunain		*	*
P5	Gweithio gyda phobl eraill i gasglu gwybodaeth bellach sy'n berthnasol i'r asesiad		*	*
P6	Gweithio gyda phobl i amlygu unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'u sefyllfa			*
P7	Dadansoddi natur, lefel, brys a goblygiadau unrhyw risgiau a amlygwyd, gan gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill			*
P8	Asesu cydbwysedd hawliau a chyfrifoldebau pobl o ran unrhyw risgiau a amlygwyd			*
P9	Gwneud dyfarniadau proffesiynol ynglŷn ag anghenion, risgiau a ffactorau amddiffynnol er mwyn llywio gwaith cynllunio			*
P10	Cofnodi gwybodaeth asesu yn gywir ac yn unol â gofynion sefydliadol		*	*
SGC 13: Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth				
P1	Amlygu mathau o ymddygiad ac amgylcheddau sy'n cyflwyno risg bosibl o niwed neu gamdriniaeth		*	*
P2	Gweithio o fewn gweithdrefnau sefydliadol ac mewn partneriaeth ag eraill i gynllunio ymchwiliad i niwed neu gamdriniaeth a amheuir		*	*
P3	Cynnal pwyslais ar ddiogelu'r unigolyn sydd mewn perygl trwy gydol y broses ymchwilio		*	*
P4	Defnyddio dyfalwch a phendantwydd i gasglu tystiolaeth uniongyrchol am y niwed neu'r gamdriniaeth		*	*

P5	Cydlynu tystiolaeth arall o amrywiaeth o ffynonellau a disgyblaethau i asesu lefel y risg		*	*
P6	Gwneud dyfarniad proffesiynol mewn partneriaeth ag eraill ynglŷn â lefel a natur yr ymyrraeth sydd ei hangen		*	*
P7	Datblygu opsiynau ar gyfer cyflawni canlyniadau ar unwaith ac yn y tymor hwy		*	*
P8	Gwneud argymhellion mewn partneriaeth ag eraill ynglŷn â'r ymyrraeth sydd ei hangen		*	*
P9	Cofnodi gwybodaeth yn ymwneud â'r ymchwiliad yn gywir ac yn unol â gofynion sefydliadol a gofynion eraill		*	*

Rôl Allweddol 5: Cynllunio ar gyfer canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Lefel 1

Lefel 2

Lefel 3

SGC 14: Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy

P1	Cynorthwyo pobl i ddeall y broses gynllunio a'u hawliau a'u cyfrifoldebau yn y broses honno		*	*
P2	Gweithio gyda phobl i gytuno ar y canlyniad cyffredinol y dylai'r cynllun ei gyflawni		*	*
P3	Pennu amcanion tymor byr, tymor canolig a thymor hir		*	*
P4	Cynorthwyo pobl i adnabod adnoddau ynddynt hwy eu hunain, yn eu rhwydweithiau personol ac yn y gymuned		*	*
P5	Archwilio ystod o ddatrysiadau posibl a'u hymarferoldeb gyda'r bobl sy'n gysylltiedig		*	*
P6	Llunio cynllun yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd		*	*
P7	Sicrhau bod y rhai hynny y mae'r cynllun yn ymwneud â hwy neu'n effeithio arnynt yn cytuno â'r cynllun		*	*
P8	Cytuno ar sut y bydd y cynllun yn cael ei fonitro a'i adolygu		*	*
P9	Cofnodi'r cynllun ac unrhyw faterion neu anghenion nad yw'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â hwy		*	*

SGC 15: Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb

P1	Adolygu eich dyletswyddau cyfreithiol a phroffesiynol chi eich hun a dyletswyddau cyfreithiol a phroffesiynol y sefydliad wrth gynorthwyo pobl i gydbwysu risgiau, hawliau a chyfrifoldebau		*	*
----	---	--	---	---

P2	Asesu gallu'r unigolyn i wneud penderfyniadau ynglŷn â risg		*	*
P3	Asesu risg yn ôl gofynion cyfreithiol a sefydliadol		*	*
P4	Defnyddio pendantrwydd i sicrhau bod gweithredoedd pobl eraill yn gweithio er pennaf les yr unigolyn ac yn ystyried y gymuned ehangach		*	*
P5	Gyda'r unigolyn, datblygu cynllun i leihau'r risgiau cymaint â phosibl ar yr un pryd â chynyddu annibyniaeth a'r cyfrifoldeb am gymryd risgiau cadarnhaol i'r eithaf		*	*
P6	Gweithio gyda'r unigolyn a phobl eraill i sicrhau eu bod yn deall y rhesymau pam y mae angen rhoi mesurau diogelu penodol ar waith			*
P7	Sicrhau bod pawb a fydd yn rhannu'r cyfrifoldeb am reoli risg yn cytuno â'r cynllun			*
P8	Cytuno ar strategaeth ar gyfer monitro ac adolygu'r cynllun rheoli risg			*
P9	Cwblhau cofnodion o'r cynllun rheoli risg			*

SGC 16: Cytuno ar gynlluniau lle y ceir risg o niwed neu gamdriniaeth

P1	Defnyddio canlyniad ymchwiliad i ddadansoddi lefel y risg i unigolyn, i'w rwydwaith uniongyrchol neu estynedig, neu i'r gymuned			*
P2	Cydweithio â'r unigolyn, y rhai hynny sy'n agos iddo, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau eraill i ddatblygu cynllun a fydd yn amddiffyn yr unigolyn, y rhai hynny sydd yn ei rwydwaith a'r gymuned		*	*
P3	Cynorthwyo'r unigolyn i gyfrannu cymaint â phosibl at y broses gynllunio		*	*
P4	Negodi cytundeb ar y cynllun gweithredu lleiaf cyfyngol a niweidiol a fydd yn cynnig diogelwch tymor byr o ran y risgiau a amlygwyd			*
P5	Datblygu cynllun therapiwtig tymor hir i adfer neu barhau i ddarparu amddiffyniad			*
P6	Adolygu cynlluniau gyda phobl eraill ar adegau cytunedig			*
P7	Gwneud newidiadau i'r cynllun mewn ymateb i lwybr yr ymyrraeth mewn ymgynghoriad â phobl eraill			*
P8	Paratoi cofnodion ac adroddiadau proffesiynol i gofnodi cynlluniau, cynnydd, newidiadau i gynlluniau a chanlyniadau		*	*

Rôl Allweddol 6: Cymryd camau i gyflawni newid

Lefel 1

Lefel 2

Lefel 3

SGC 17: Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid

P1	Ymchwilio i ystod o ddulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol a allai hybu newid mewn sefyllfaoedd penodol		*	*
P2	Dadansoddi sut y gellir dangos eich sgiliau proffesiynol a rhyngpersonol eich hun o fewn dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol		*	*
P3	Mynegi eich sail resymegol dros ddewis ymyriadau arbennig mewn sefyllfaoedd penodol		*	*
P4	Defnyddio eich sgiliau proffesiynol a rhyngpersonol eich hun i gymhwyso ymyriadau gwaith cymdeithasol		*	*
P5	Monitro effeithiolrwydd yr ymyriadau o ran cyflawni newid trwy fyfyrion ar ymarfer			*
P6	Diwygio ymyriadau yn sgîl monitro myfyriol			*

SGC 18: Cael at adnoddau i gefnogi datrysiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

P1	Cadarnhau gyda'r bobl sy'n gysylltiedig y canlyniadau y mae angen i adnoddau eu cyflawni		*	*
P2	Cyflawni'r camau gweithredu angenrheidiol er mwyn sicrhau'r adnoddau y cytunwyd arnynt		*	*
P3	Rhoi gwybodaeth reolaidd i bobl am gynnydd o ran sicrhau adnoddau		*	*
P4	Cynorthwyo pobl i ymdopi ag unrhyw newyddion annisgwyl neu ddigroeso a allai godi wrth sicrhau adnoddau		*	*
P5	Cytuno ar ffordd o fonitro ac adolygu'r defnydd o adnoddau, i fodloni anghenion y bobl sy'n gysylltiedig ac anghenion y sefydliad		*	*
P6	Darparu gwybodaeth fonitro am adnoddau i fodloni gofynion sefydliadol ac i hysbysu gwaith cynllunio gwasanaethau, strategaethau comisiynu a chynyddu gallu		*	*
P7	Gwerthuso effeithiolrwydd adnoddau o ran cyflawni canlyniadau i bobl dros amser		*	*

SGC 19: Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol

P1	Adolygu canlyniadau bwriadedig ymarfer gwaith cymdeithasol mewn sefyllfaoedd penodol		*	*
----	--	--	---	---

P2	Dadansoddi gwybodaeth o amrywiaeth o safbwyntiau am gynnydd tuag at ganlyniadau		*	*
P3	Mewn partneriaeth â phobl eraill, gwerthuso canlyniadau i unigolion, eu teuluoedd neu gymunedau		*	*
P4	Dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer eich sefydliad eich hun			*
P5	Myfyrio ar eich rôl eich hun a'r defnydd ohonoch chi eich hun mewn ymyriadau gwaith cymdeithasol penodol			*
P6	Mewn partneriaeth â phobl eraill, diwygio cynlluniau ar gyfer ymarfer ac ymyriadau i ystyried gwerthusiadau			*
P7	Amlygu gwersi a ddysgwyd a ddylai lywio eich ymarfer yn y dyfodol a gwaith eich sefydliad		*	*
P8	Mynegi sut y gallai eich gwerthusiadau eich hun gyfrannu at ddatblygu gwaith cymdeithasol fel proffesiwn			*

SGC 20: Tynnu'n ôl ar ddiwedd cyfranogiad gwaith cymdeithasol

P1	Cytuno ar gynllun ar gyfer tynnu'n ôl pan fydd diwedd eich cyfranogiad yn nesáu		*	*
P2	Esbonio i bobl y rhesymau pam y byddwch yn tynnu'n ôl yn fuan		*	*
P3	Rhoi gwybodaeth i bobl am derfyn neu barhad y cymorth iddynt		*	*
P4	Trefnu ar gyfer trosglwyddo neu gau gwybodaeth yn ymwneud â chyfranogiad gwaith cymdeithasol		*	*
P5	Cwblhau'r dogfennau sy'n ofynnol i derfynu eich cyfranogiad		*	*

Atodiad 4 – Mapio'r SGC yn ôl Datganiadau Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, Lefelau 2 a 3

Lefel 1 – Addasrwydd i Symud Ymlaen mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Côd Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol:

Mae'r myfyriwr yn **disgrifio, egluro a chymhwyso'r** Côd Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasoltrwy:

- eu hymagwedd at ddatblygiad proffesiynol ac academaidd;
- eu gwaith asesedig;
- dysgu ymarfer;
- eu hymddygiad.

Symud ymlaen tuag at Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Erbyn diwedd y lefel *Addasrwydd i Symud Ymlaen mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol*, dylai myfyrwyr fod yn gallu:

1. Arddangos y sgiliau rhyngbersonol a'r gwerthoedd sydd eu hangen arno neu arni i fod yn addas a diogel i weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr; ac
2. Arddangos dealltwriaeth, yn uniongyrchol oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr, o effaith ymarfer gwaith cymdeithasol arnynt.
3. O ran cyrraedd y dyfarniad hwn, bydd angen i fyfyrwyr arddangos eu bod nhw'n bodloni'r safonau canlynol a dynnwyd o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol⁸:

Sgiliau o Ddatganiadau Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol⁷

Erbyn diwedd y lefel *Addasrwydd i Symud Ymlaen mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol*, dylai myfyrwyr fod yn gallu:

- rheoli gweithgareddau datrys problemau
- casglu gwybodaeth
- defnyddio amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu
- myfyrto a dysgu oddi wrth ymarfer eu sgiliau
- arddangos sgiliau mewn datblygiad personol a phroffesiynol
- arddangos sgiliau mewn gweithio gydag eraill
- bodloni dyddiadau cwblhau
- arddangos sgiliau TGCh a rhifiadol

Gwybodaeth a Dealltwriaeth Pwnc o Ddatganiadau Meincnodi:

Erbyn diwedd y lefel *Addasrwydd i Symud Ymlaen mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol*, dylai fod gan fyfyrwyr wybodaeth am:

- y cysyniadau a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â gwaith cymdeithasol, a gallu i werthuso a dehongli'r rhain o fewn cyd-destun eu hastudiaeth
- gallu i gyflwyno, gwerthuso a dehongli data ansoddol a meintiol, er mwyn datblygu dadleuon a gwneud dyfarniadau cadarn yn unol â theorïau a chysyniadau sylfaenol gwaith cymdeithasol.

Dylai'r wybodaeth fod wedi cael ei hennill a'i hintegreiddio yn y meysydd craidd canlynol:

⁷ <http://www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/Subject-benchmark-statement-Social-work.aspx>

⁸ O Feini Prawf Perfformiad Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol rhifau 2, 5 a 9. Gweler Atodiad A i gael manylion.

Symud ymlaen tuag at Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol	Sgiliau o Ddatganiadau Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol⁷	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Pwnc o Ddatganiadau Meincnodi:
<ul style="list-style-type: none">• ceisio goruchwyliaeth broffesiynol i ddatblygu ymarfer gwaith cymdeithasol atebol;• paratoi ar gyfer goruchwyliaeth broffesiynol ffurfiol mewn ffyrdd sy'n gwneud y gorau o'i heffeithlonrwydd• adnabod materion moesegol, penblethau a gwrthdrawiadau sy'n codi yn ystod ymarfer gwaith cymdeithasol;• cynllunio sut i ddefnyddio cyfathrebu i sicrhau ymgysylltiad cychwynnol		<ul style="list-style-type: none">• gwasanaethau gwaith cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr• y cyd-destun cyflwyno gwasanaeth• gwerthoedd a moeseg• theori gwaith cymdeithasol• natur ymarfer gwaith cymdeithasol

Lefel 2 – Cymhwyso Gwybodaeth, Sgiliau a Gwerthoedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Côd Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol:

Mae'r myfyriwr yn **dadansoddi a gwerthuso eu cymhwysiad** o'r *Côd Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol* trwy:

- eu hymagwedd at ddatblygiad proffesiynol ac academaidd;
- gwaith asesedig;
- dysgu ymarfer;
- eu hymddygiad.

Symud ymlaen tuag at Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Erbyn diwedd lefel Cymhwyso Gwybodaeth, Sgiliau a Gwerthoedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, dylai myfyrwyr fod yn gallu arddangos cymhwysedd datblygol yn y chwe rôl allweddol a'r 20 Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fel y nodir yn Atodiad A:

Rôl allweddol 1: Cynnal atebolrwydd proffesiynol

1. Cynnal cronfa wybodaeth a thystiolaeth ddiweddar ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol
2. Datblygu eu hymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwylio a myfyrio

Rôl allweddol 2: Ymarfer gwaith cymdeithasol proffesiynol

3. Rheoli eu rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol
4. Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol
5. Rheoli materion moesegol, penblethau a gwrthdrawiadau
6. Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaeth
7. Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol sy'n gysylltiedig â phobl

Sgiliau o Ddatganiadau Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol

Erbyn diwedd lefel Cymhwyso Gwybodaeth, Sgiliau a Gwerthoedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, dylai myfyrwyr:

- defnyddio amrywiaeth o dechnegau sefydledig i gychwyn a chyflawni dadansoddiad critigol o wybodaeth, a chynnig atebion i broblemau sy'n codi o'r dadansoddiad hwnnw
- cyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiadau yn effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd i gynulleidfaoedd arbenigol a rhai nad ydynt yn arbenigol, a defnyddio technegau allweddol y ddisgyblaeth yn effeithiol
- cyflawni hyfforddiant pellach, datblygu sgiliau presennol ac ennill cymwyseddau newydd a fydd yn eu galluogi nhw i ymgymryd cyfrifoldeb sylweddol o fewn sefydliadau

Dylai'r sgiliau hyn fod wedi cael eu hennill a'u hintegreiddio yn y meysydd sgiliau craidd canlynol:

- sgiliau datrys problemau
 - rheoli gweithgareddau datrys problemau
 - rasglu gwybodaeth
 - dadansoddi a chyfosod
 - ymyrryd a gwerthuso

Gwybodaeth a Dealltwriaeth Pwnc o Ddatganiadau Meincnodi:

Erbyn diwedd lefel Cymhwyso Gwybodaeth, Sgiliau a Gwerthoedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, dylai fod gan fyfyrwyr:

- wybodaeth a dealltwriaeth gritigol o egwyddorion sefydledig gwaith cymdeithasol, ac o'r ffordd y mae'r egwyddorion hynny wedi datblygu
- y gallu i gymhwyso cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol y tu allan i'r cyd-destun y cawsant eu hastudio ynddo yn gyntaf, gan gynnwys cymhwyso'r egwyddorion hynny mewn ymarfer
- wybodaeth ynglŷn â phrif ddulliau ymholi mewn gwaith cymdeithasol, a'r gallu i werthuso'n gritigol briodoldeb ymagweddau gwahanol at ddatrys problemau ym maes astudio
- dealltwriaeth o gyfyngiadau eu gwybodaeth, a sut y bydd hyn yn dylanwadu ar ddadansoddiadau a dehongliadau ar sail y wybodaeth honno.

Symud ymlaen tuag at Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol	Sgiliau o Ddatganiadau Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Pwnc o Ddatganiadau Meincnodi:
<p>Rôl allweddol 3: Hybu ymgysylltiad a chyfranogiad</p> <p>8. Paratoi ar gyfer ymgysylltu â gwaith cymdeithasol</p> <p>9. Ymgysylltu pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol</p> <p>10. Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau</p> <p>11. Eirioli ar ran pobl</p>	<ul style="list-style-type: none"> • sgiliau cyfathrebu • sgiliau mewn gweithio gydag eraill • sgiliau mewn datblygiad personol a phroffesiynol • TGCh a sgiliau rhifiadol 	<p>Dylai'r wybodaeth hon fod wedi cael ei hennill a'i hintegreiddio yn y meysydd astudio craidd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwasanaethau gwaith cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr • y cyd-destun cyflwyno gwasanaeth • gwerthoedd a Moeseg • theori gwaith cymdeithasol • natur ymarfer gwaith cymdeithasol
<p>Rôl allweddol 4: Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau</p> <p>12. Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sy'n ymglymedig</p> <p>13. Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth</p>		
<p>Rôl allweddol 5: Cynllunio ar gyfer canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn</p> <p>14. Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy</p> <p>15. Cytuno ar gynlluniau rheoli risgiau i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb</p> <p>16. Cytuno ar gynllunio lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth</p>		
<p>Rôl allweddol 6: Cymryd camau i gyflawni newid</p> <p>17. Cymhwyso dulliau a modelau ymyrryd gwaith cymdeithasol i hybu newid</p> <p>18. Cael mynediad at adnoddau cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn</p> <p>19. Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol</p> <p>20. Datgysylltu ar ddiwedd ymglymiad gwaith cymdeithasol</p>		

Lefel 3 – Datblygu a Chadarnhau Cymhwysedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Côd Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol:

Mae'r myfyriwr yn **integreiddio'r Côd Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol ac yn dadansoddi eu cymhwysiad yn gritigol** trwy:

- eu hymagwedd at ddatblygiad proffesiynol ac academaidd;
- eu gwaith asesedig;
- dysgu ymarfer;
- eu hymddygiad.

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Sgiliau o Ddatganiadau Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol

Gwybodaeth a Dealltwriaeth Pwnc o Ddatganiadau Meincnodi:

Erbyn diwedd y lefel Datblygu a Chadarnhau Cymhwysedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, dylai myfyrwyr fod yn gallu:

Rôl allweddol 1: Cynnal atebolrwydd proffesiynol

1. Cynnal cronfa wybodaeth a thystiolaeth ddiweddar ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol
2. Datblygu eu hymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwylio a myfyrion

Rôl allweddol 2: Ymarfer gwaith cymdeithasol proffesiynol

3. Rheoli eu rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol
4. Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol
5. Rheoli materion moesegol, penblethau a gwrthdrawiadau
6. Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaeth
7. Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol sy'n gysylltiedig â phobl

Erbyn diwedd y lefel Datblygu a Chadarnhau Cymhwysedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, dylai myfyrwyr fod wedi ennill ac integreiddio sgiliau yn y meysydd sgiliau craidd canlynol:

- sgiliau datrys problemau
 - rheoli gweithgareddau datrys problemau
 - casglu gwybodaeth
 - dadansoddi a chyfosod
 - ymyrryd a gwerthuso
 - sgiliau cyfathrebu
 - sgiliau mewn gweithio gydag eraill
 - sgiliau mewn datblygiad personol a phroffesiynol
 - TGCh a sgiliau rhifiadol
- Ar ôl graddio â gradd mewn gwaith cymdeithasol, dylai myfyrwyr fod yn gallu arddangos gallu datblygedig i:
- gymhwyso'n greadigol stôr o sgiliau craidd fel y nodir uchod
 - cyfathrebu'n effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr, a gyda gweithwyr proffesiynol eraill
 - integreiddio dealltwriaeth eglur o faterion moesegol a chodau o werthoedd, ac ymarfer gyda'u hymyriadau mewn sefyllfaoedd penodol

Erbyn diwedd y lefel Datblygu a Chadarnhau Cymhwysedd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, dylai fod gan fyfyrwyr:

- ealltwriaeth gadarn o'r pum maes craidd o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n berthnasol i waith cymdeithasol, gallu i ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth mewn modd integredig, mewn cyd-destunau ymarfer penodol
- gallu i ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ymgysylltu mewn perthnasoedd effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr
- arfarniad o ddysgu blaenorol, a phrofiad a gallu i ymgorffori hyn i mewn i'w dysgu ac ymarfer yn y dyfodol
- cydnabod a deall potensial a chyfyngiadau gwaith cymdeithasol fel disgyblaeth ar sail ymarfer i achosi newid unigol a chymdeithasol
- gallu i ddefnyddio technegau ymchwil ac ymholi gydag ymwybyddiaeth fyfyrion, i gasglu, dadansoddi a dehongli gwybodaeth berthnasol
- gallu datblygedig i werthuso gwybodaeth a thystiolaeth yn gritigol o amrywiaeth o ffynonellau.

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol	Sgiliau o Ddatganiadau Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Pwnc o Ddatganiadau Meincnodi:
<p>Rôl allweddol 3: Hybu ymgysylltiad a chyfranogiad</p> <p>8. Paratoi ar gyfer ymgysylltu â gwaith cymdeithasol</p> <p>9. Ymgysylltu pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol</p> <p>10. Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau</p> <p>11. Eirioli ar ran pobl</p>	<ul style="list-style-type: none"> • ymarfer lefel briodol o ymreolaeth a menter yn gyson wrth wneud penderfyniadau unigol o fewn cyd-destun gofynion goruchwyllo, cydweithredol, moesegol a sefydliadol • arddangos ymarferion myfyrio critigol ar eu perfformiad a chymryd cyfrifoldeb dros addasu gweithredu yn unol â hyn. 	<p>Dylai'r wybodaeth hon fod wedi cael ei hennill a'i hintegreiddio yn y meysydd astudio craidd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwasanaethau gwaith cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr • y cyd-destun cyflwyno gwasanaeth • gwerthoedd a moeseg • theori gwaith cymdeithasol • natur ymarfer gwaith cymdeithasol
<p>Rôl allweddol 4: Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau</p> <p>12. Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sy'n ymglymedig</p> <p>13. Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth</p>		
<p>Rôl allweddol 5: Cynllunio ar gyfer canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn</p> <p>14. Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy</p> <p>15. Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb</p> <p>16. Cytuno ar gynllunio lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth</p>		
<p>Rôl allweddol 6: Cymryd camau i gyflawni newid</p> <p>17. Cymhwyso dulliau a modelau ymyrryd gwaith cymdeithasol i hybu newid</p> <p>18. Cael mynediad at atebion cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn</p> <p>19. Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol</p> <p>20. Datgysylltu ar ddiwedd ymglymiad gwaith cymdeithasol</p>		

Atodiad 5 – Gofynion Technoleg Gwybodaeth i Fyfyrrwyr Gwaith Cymdeithasol

Datganiadau Meincnodi yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Gwaith Cymdeithasol⁹

Gofynion Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

TGCh a sgiliau rhifiadol

Dylai graddedigion ag anrhydedd mewn gwaith cymdeithasol fod yn gallu defnyddio dulliau a thechnegau TGCh i ategu eu dysgu a'u hymarfer. Yn arbennig, dylen nhw fod yn gallu arddangos y gallu i:

- ddefnyddio TGCh yn effeithiol ar gyfer cyfathrebu proffesiynol, storio ac adfer data, a chwilio gwybodaeth
- defnyddio TGCh wrth weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- arddangos cynefindra digonol gyda thechnegau ystadegol i alluogi defnydd effeithiol o ymchwil mewn ymarfer
- integreiddio defnydd priodol o TGCh i wella sgiliau wrth ddatrys problemau yn y pedwar maes a nodir ym mharagraff 6.2¹⁰
- cymhwyso sgiliau rhifiadol i gyfrifoldebau ariannol a chyllidebol
- gael dealltwriaeth gritigol o effaith gymdeithasol TGCh, gan gynnwys ymwybyddiaeth o effaith y 'gwahaniad digidol'.

⁹ O: Asiantaeth Sicrhau Ansawdd – Datganiadau Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, 2008, paragraff 5.9

¹⁰ "Gellir mynegi'r prosesau dysgu mewn gwaith cymdeithasol ar lefel gradd ag anrhydedd ar ffurf pedair thema gydberthnasol.

- **Codi ymwybyddiaeth, caffael sgiliau a gwybodaeth** – proses lle mae myfyrrwyr yn dod yn fwy ymwybodol o agweddau o wybodaeth ac arbenigedd, yn dysgu sut i ymgysylltu'n systematig ac ennill meysydd newydd o wybodaeth, cydnabod eu potensial a chael eu cymell i ymgysylltu mewn ffyrdd newydd o feddwl a gweithredu.
- **Dealltwriaeth gysyniadol** – proses lle mae myfyriwr yn ennill, archwilio'n gritigol ac yn dyfnhau dealltwriaeth (wedi'u mesur a'u profi yn erbyn gwybodaeth ac addasiadau presennol a wnaed mewn agweddau a nodau).
- **Sgiliau a phrofiad ymarfer** – prosesau lle mae myfyriwr yn dysgu sgiliau ymarfer yn y cyd-destunau a amlygir ym mharagraff 4.4 ac yn cymhwyso modelau damcaniaethol a thystiolaeth ymchwil gyda dealltwriaeth newydd i weithgareddau perthnasol, a derbyn adborth gan ffynonellau amrywiol ar berfformiad, gwella didwylledd i hunanwerthusiad critigol.
- **Ystyried perfformiad** – proses lle mae myfyriwr yn myfyrio'n gritigol ac yn arfarnol ar brofiad blaenorol, perfformiad diweddar, ac adborth, a chymhwyso'r wybodaeth hon i'w broses o integreiddio ymwybyddiaeth (gan gynnwys ymwybyddiaeth o effaith eich hun ar bobl eraill) a dealltwriaeth newydd, sy'n arwain at berfformiad gwell."